# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**FFORWM CYLLIDEB YSGOLION**

Dyddiad ac Amser

**3.30 y.h., DYDD LLUN, 28AIN MEDI, 2020**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol - Teams**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**EirianRoberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 24/09/20)

# FFORWM CYLLIDEB YSGOLION

AELODAETH

## AELODAU CABINET

Y Cynghorydd Cemlyn Rees Williams (Addysg)
Y Cynghorydd Ioan Thomas (Cyllid)

## PRIF WEITHREDWR

Mr Dilwyn Williams

## PENNAETH CYLLID

Dafydd Edwards

## PENAETHIAID UWCHRADD

Mr Dylan Davies – Ysgol Dyffryn Ogwen
Mr Dewi Lake – Ysgol y Moelwyn
Mr Dylan Minnice - Ysgol Botwnnog
Mr Arwyn Williams – Ysogl Tryfan

## PENAETHIAID CYNRADD

Mrs Iona Jones - Ysgol Edmwnd Prys/Bro Cynfal
Mrs Menna Wynne Pugh – Ysgol Penybryn
Mr Alan Wynn Jones – Ysgol Cymerau
Mr Richard Derwyn Jones – Ysgol Garndolbenmaen
Mr Llion Williams – Ysgol y Garnedd
Mrs Eleri Morgan Davies – Ysgol Y Gorlan

## UNDEBAU ATHRAWON

Mr Neil Foden – Ysgol Friars

## LLYWODRAETHWYR

Arfon
Mr Godfrey Northam - Ysgol Dyffryn Ogwen
Mr Edward Bleddyn Jones – Ysgol Tregarth

Meirionnydd
Disgwyl enwebiad – Llyowdraethwyr Cynradd
Disgwyl enwebiad - Llywodraethwyr Uwchradd

Dwyfor
Mr Gwilym Jones, Ysgol Borthygest,
Disgwyl Enwebiad – Llywodraethwr Uwchradd

## ESGOBAETH

Anest Gray Frazer

## YSGOLION EGLWYS

Mr Elfed Morgan Morris – Ysgol Llandygai

## YSGOLION ARBENNIG

Mrs Donna Roberts - Ysgol Hafod Lon

**Sylwedyddion:**

Mr Garem Jackson, Pennaeth Addysg
Mr Owen Owens, Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau
Ms Kathy Bell, Cyfrifydd Grŵp Ysgolion
Ms Gwenan Davies Jones - Cadeirydd Ffederasiwn Penaethiaid Cynradd
Ms Ellen Williams - Cadeirydd Ffederasiwn Penaethiaid Uwchradd

# RHAGLEN

**1. ETHOL CADEIRYDD**

Ethol Cadeirydd ar gyfer 2020/21.

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

Ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2020/21.

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**5. COFNODION** 5 - 10

Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 2 Mawrth, 2020 (ynghlwm).

**6. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

Trafod unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion.

**7. CYFRIFON TERFYNOL YSGOLION BLWYDDYN GYLLIDOL 2019-20** 11 - 16

Adroddiad gan Kathy Bell (Cyfrifydd Grŵp Ysgolion) (ynghlwm)

**8. GRANTIAU YSGOLION 2020-21** 17 - 22

Adroddiad gan Kathy Bell (Cyfrifydd Grŵp Ysgolion) (ynghlwm)

**9. MATERION ARIANNOL COVID-19**

Adroddiad llafar ar:-

- Wariant ychwanegol
- Lleihad incwm
- Arall

**10. STRATEGAETH DDIGIDOL YSGOLION GWYNEDD** 23

Adroddiad gan Gwern ap Rhisiart (Swyddog Addysg Ardal Dwyfor/Meirionnydd) a Huw Ynyr (Pennaeth Cynorthwyol - TG) (ynghlwm).

**11. CYLLID ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL** 24 - 25

Adroddiad gan Ffion E.Ellis (Pennaeth Cynorthwyol Anghenion Addysg Arbennig a Chynhwysiad) (ynghlwm).

## 12. DYDDIADAU CYFARFODYDD Y FLWYDDYN ACADEMAIDD 2020-21

# FFORWM CYLLIDEB YSGOLION DYDD LLUN, 2 MAWRTH 2020

**Yn bresennol:** Godfrey Northam (Llywodraethwr Ysgol Dyffryn Ogwen) (Cadeirydd).

**Aelod Cabinet:** Y Cynghorydd Ioan Thomas (Cyllid).

**Penaethiaid Ysgolion:**

Uwchradd: Dylan Minnice (Ysgol Botwnnog) a Dewi Lake (Ysgol y Moelwyn).

Cynradd: Iona Jones (Ysgol Edmwnd Prys / Bro Cynfal), Menna Wynne Pugh (Ysgol Penybryn) a Llion Williams (Ysgol y Garnedd).

**Undebau Athrawon:** David Healey (Ysgol Friars) (yn dirprwyo ar ran Neil Foden).

**Llywodraethwyr:** Gwilym Jones (Ysgol Borth y Gest).

**Swyddogion:** Owen Owens (Uwch Reolwr Ysgolion), Kathy Bell (Uwch Gyfrifydd Datblygu), Gwern ap Rhisiart (Swyddog Addysg Ardal Dwyfor / Meirion), Huw Ynyr (Pennaeth Cynorthwyol Technoleg Gwybodaeth), Gwyn Owen (Uwch Gyfrifydd) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

Nododd y Cadeirydd mai hwn fyddai wedi bod y cyfarfod diwethaf o'r Fforwm i Hefin Owen (Cyfrifydd Grŵp Datblygu) ei fynychu, ond yn anffodus na allai fod yn bresennol oherwydd salwch. Gan hynny, awgrymodd y dylid anfon cerdyn ato i ddiolch iddo am ei wasanaeth dros y blynyddoedd, ac i ddymuno'n dda iddo i'r dyfodol.

Nododd y Cadeirydd y dylid ysgrifennu at y bobl oedd yn absennol o'r cyfarfod hwn i ofyn beth oedd y rheswm dros eu habsenoldeb, ac i ofyn iddynt gadarnhau eu dymuniad i barhau'n aelodau o'r Fforwm ai peidio. Dylid cysylltu hefyd â'r cyrff hynny y disgwylid enwebiad ganddynt ar y Fforwm, gan gymryd y cyfle hwn hefyd i atgoffa pawb o'r drefn ddirprwyo. Awgrymwyd yn ogystal y dylid cychwyn cadw cofnod o bresenoldeb yng nghyfarfodydd y Fforwm o ddiwedd yr haf ymlaen.

## 1. YMDDIHEURIADAU

Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Arwyn Williams (Ysgol Tryfan), Alan Wyn Jones (Ysgol Nefyn), Richard Derwyn Jones (Ysgol Garndolbenmaen), Eleri Morgan Davies (Ysgol y Gorlan), Neil Foden (Ysgol Friars), Anest Gray Frazer (Esgobaeth), Gwenan Davies Jones (Cadeirydd Ffederasiwn Penaethiaid Cynradd), Ellen Williams (Cadeirydd Ffederasiwn Penaethiaid Uwchradd), Hefin Owen (Cyfrifydd Grŵp Datblygu) a Ffion Edwards Ellis (Pennaeth Cynorthwyol Anghenion Addysg Arbennig a Chynhwysiad).

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3 MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Fforwm a gynhaliwyd ar 23 Ionawr, 2020 fel rhai cywir.

## 5. MATERION YN CODI O'R COFNODION

Eitem 5 – Balansau Ysgolion 31/3/2020 dros £50,000 (Cynradd) neu £100,000 (Uwchradd)

Mewn ymateb i ymholiad, nodwyd na chafwyd cadarnhad hyd yma o'r sefyllfa gyfreithiol o ran statws ysgol ddilynol. Holwyd ymhellach a fyddai'n bosib' rhoi'r cynradd a'r uwchradd gyda'i gilydd am y tro. Nodwyd nad oedd modd gwneud hynny gan ei fod yn fater cyfreithiol yn hytrach nag yn ddewis i awdurdod.

Nodwyd bod holl aelodau'r Fforwm wedi derbyn copi o'r datganiad ystadegol cyntaf ynglŷn â chronfeydd ariannol wrth gefn ysgolion ar 31 Mawrth, 2019. Tynnwyd sylw at rai o'r prif bwyntiau, sef:-

- Bod cyfanswm lefel y cronfeydd wrth gefn yn ysgolion Cymru yn £46m ar 31 Mawrth 2019, oedd yn gyfwerth â £102 y disgybl.
- Mai Abertawe oedd â'r lefel uchaf o gronfeydd wrth gefn fesul disgybl, sef £251, a Sir Fynwy yr isaf, gyda diffyg o £22 y disgybl.
- Bod gan 151 o ysgolion cynradd, 77 o ysgolion uwchradd, 8 o ysgolion arbennig, 1 ysgol feithrin a 10 ysgol ganol yng Nghymru gronfeydd wrth gefn negyddol a oedd yn gyfwerth â £29m. Roedd gan y 1,287 o ysgolion eraill gronfeydd wrth gefn mwy na 10% o gyfanswm y gwariant a glustnodwyd ar eu cyfer.

Nodwyd ymhellach bod Gwynedd yn eithaf agos i'r uchaf o ran lefel y cronfeydd wrth gefn fesul disgybl.

Mewn ymateb i ymholiad, nodwyd mai pryder mwyaf y swyddogion fyddai bod ysgolion yn mynd i ddiffyg, gan ei bod yn anodd iawn dod allan o'r sefyllfa honno.

Eitem 7 – Grantiau Ysgolion 2020/21

Mewn ymateb i ymholiad, nodwyd na chafwyd gwybodaeth hyd yma gan GwE ynglŷn â'r defnydd o'r Grant Datblygiad Proffesiynol.

Eitem 8 – Setliad Drafft – Strategaeth Ariannol Cyngor Gwynedd

Mewn ymateb i ymholiad, nodwyd bod elfen o'r bid cludiant wedi ei ariannu a chadarnhawyd nad oedd hyn yn effeithio ar gyllid ysgolion beth bynnag.

Nodwyd y deellid bod Cabinet Cyngor Gwynedd wedi penderfynu peidio cynaeafu'r cynllun arbedion cyffredinol ar gyfer ysgolion eleni, a phwysleisiwyd, petai yna fwriad i newid hynny i'r dyfodol, y dylai'r Fforwm fod yn rhan o'r drafodaeth honno.

Mewn ymateb, nodwyd bod y sefyllfa'n dibynnu ar setliad Llywodraeth Cymru i gynghorau. Cafwyd setliad gwell na'r disgwyl eleni, ond ni allai neb roi addewid i'r dyfodol a byddai ffactorau megis Brexit, y llifogydd diweddar a Coronavirws yn amlwg yn rhan o'r drafodaeth yn y dyfodol. Cytunwyd y dylai'r Fforwm fod yn rhan o'r drafodaeth petai'r sefyllfa'n newid yn y dyfodol.

## 6. DYRANIAD INTEGREIDDIO

Cyflwynwyd er gwybodaeth – adroddiad y Cyfrifydd Grŵp Datblygu yn rhoi dadansoddiad o'r Dyraniad Integreiddio ers sefydlu'r gyfundrefn ariannu gyfredol yn 2015/16.

Nododd Swyddog Addysg Ardal Dwyfor / Meirion fod y Pennaeth Cynorthwyol Anghenion Addysg Arbennig a Chynhwysiad wedi gofyn iddo adrodd ar rai pwyntiau yn sgil yr eitem hon. Eglurodd:-

- Y comisiynwyd arolwg allanol ynglŷn â'r defnydd o'r cyllid integreiddio fel rhan o Gwedd 2 o'r adolygiad strategol ym maes Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad (ADY a Ch).
- Mai'r bwriad ar y pryd oedd sefydlu is-grŵp fyddai'n edrych ar y dulliau gwahanol o ddatganoli'r cyllid integreiddio, ond ar draws hynny daeth cais gan y Bwrdd Rheoli i wneud adolygiad llawn o'r gwasanaeth ADY a Ch ar draws Gwynedd a Môn.
- Bod y gwaith hwnnw wedi mynd rhagddo yn ystod yr wythnosau diwethaf. Adroddwyd yn ôl ar hynny eisoes a byddai hynny'n cael ei rannu gyda'r Byrddau Strategol.
- Bod y Pennaeth Cynorthwyol Anghenion Addysg Arbennig a Chynhwysiad yn dymuno pwysleisio bod yna fwriad a dymuniad i drafod opsiynau gwahanol o ran datganoli, a byddai'r is-grŵp yn edrych ar hynny yn ystod yr wythnosau nesaf.

**PENDERFYNWYD bod yr is-grŵp fydd yn edrych ar y dulliau gwahanol o ddatganoli'n bwydo nôl i'r Fforwm nesaf. Cytunwyd hefyd i rannu crynodeb o'r adolygiad annibynnol o'r Gwasanaeth ADY a Ch ar draws Gwynedd a Môn i'r grwpiau ymgynghorol cynradd ac uwchradd.**

## 7. STRATEGAETH DDIGIDOL YSGOLION

Nodwyd bod holl aelodau'r Fforwm wedi derbyn copi o adroddiad a baratowyd gan y Pennaeth Cynorthwyol Technoleg Gwybodaeth ar y cyd â Swyddog Addysg Ardal Dwyfor / Meirion ar y Cynllun Grant Seilwaith Mewn Ysgolion - Hwb. Eglurwyd na lwyddwyd i gynnwys yr adroddiad ar raglen y Fforwm oherwydd na dderbyniwyd y ffigurau terfynol gan Lywodraeth Cymru tan yr unfed awr ar ddeg.

Manylwyd ar gynnwys yr adroddiad. Nodwyd:-

- Yng Ngorffennaf 2019, y cyhoeddodd y Gweinidog Addysg raglen ariannu i helpu i drawsnewid Technoleg Addysg Mewn Ysgolion yng Nghymru.
- Y byddai'r fenter £50m yn defnyddio 'catalog TGCh Cymru Gyfan' newydd fel cyfrwng i helpu awdurdodau lleol i brynu'r cyfarpar addas angenrheidiol ar ran eu hysgolion.
- Yn unol ag amodau'r cynllun, awdurdodau lleol fyddai'n gwasanaethu fel y partner cyflenwi strategol ar gyfer y rhaglen a byddai'n rhaid defnyddio'r cyllid yn briodol er mwyn sicrhau bod pob ysgol yn cael ei huwchraddio yn unol â'r safon cenedlaethol.
- Bod Gwynedd wedi ymrwymo i fod yn gyswllt ar gyfer ysgolion y sir ac wedi cytuno i egwyddorion craidd safoni, cysondeb ac, yn bwysicaf oll, cynaliadwyedd.
- Bod y grant yn galluogi adnewyddu rhwydwaith ysgolion Gwynedd er mwyn cyrraedd y safon genedlaethol, gan uwchraddio pwyntiau rhwydwaith diwifr a chabinetau rhwydwaith a gosod ceblau newydd lle bo angen.
- Bod y caledwedd ar gyfer uwchraddio'r rhwydwaith wedi ei archebu, a byddai'r gwaith mewnosod yn digwydd dros y ddau dymor nesaf.
- Gan fod y Cyngor wedi ymrwymo i gynaliadwyedd yr offer yma, ni fyddai yna oblygiadau cost ar yr ysgolion pan fyddai'r offer a osodid drwy'r grant yn cyrraedd diwedd ei oes.
- Y buddsoddwyd yn agos i £1.4m o'r grant eleni ar galedwedd i uwchraddio'r rhwydwaith.

- Bod asesiad o niferoedd a chyflwr y dyfeisiadau presennol ar draws ysgolion Gwynedd yn dangos bod ystod eang o ddyfeisiadau ar gael yn yr ysgolion, ond bod llawer ohonynt wedi dyddio.
- Bod Strategaeth Addysg Ddigidol yr Adran Addysg wedi gosod uchelgais o ran cyfradd dyfais i blentyn o 1:4 yn y cyfnod sylfaen ac 1:1 yng nghyfnodau allweddol 2, 3 a 4, ynghyd â dyfais i bob athro/athrawes ac i nifer o'r staff cynhaliol.
- Byddai peidio cynnal cyfradd 1:1 yn y sector uwchradd yn golygu cadw elfennau o'r hen system ac yn golygu cynnydd sylweddol mewn costau cynnal a chadw'r offer.
- Amcangyfrifid bod angen 13,676 o ddyfeisiadau ar gost o £2,908,205.02. Byddai'r grant yn ein galluogi i brynu'r dyfeisiadau hyn.
- Yn seiliedig ar gylch adnewyddu o 5 mlynedd byddai'n rhaid canfod 20% o gost y dyfeisiadau hyn bob blwyddyn am y 5 mlynedd nesaf. Ar ddiwedd y 5 mlynedd, byddai set newydd o ddyfeisiadau yn cael eu cyflwyno. Byddai'r costau fel a nodir yn y tablau isod:-

| | Nifer Disgyblion | Nifer cyfrifiaduron (ar sail ratio) | Cost (ar sail ratio) | Cyfraniad Adnewyddu | Cost y Disgybl |
|---|---|---|---|---|---|
| CS | 3,530 | 883 | £293,431.25 | £58,686.00 | £16.62 |
| CA2 | 5,150 | 5,150 | £916,242.16 | £183,248.43 | £35.58 |
| CA3 a 4 | 6,455 | 6,455 | £1,017,759.85 | £203,551.97 | £31.53 |
| Cyfanswm | 15,135 | 12,488 | £2,227,433.26 | £445,486.65 | £29.43 |

Athrawon

| | Nifer Athrawon | Nifer cyfrifiaduron (ar sail ratio) | Cost (ar sail ratio) | Cyfraniad Adnewyddu | Cost yr Athro |
|---|---|---|---|---|---|
| Pob ysgol* | 1,188 | 1,188 | £462,452.76 | £92,490.55 | £6.11 |

*£218,319 ei angen ar gyfer Gorsaf Ddocio, Monitor, Bysellfwrdd a Llygoden – ni chynhwyswyd y rhain yn y costau adnewyddu gan y dylent oresgyn y cyfnod adnewyddu.

- Byddai cost cynaliadwyedd y cynllun felly'n £537,976 ar gyfer y ddau sector gyda £280,939 o'r cynradd a £257,038 o'r uwchradd.
- Ar gyfer ysgolion cynradd byddai disgwyl i ysgol sydd â 100 o blant gyfrannu tua £3,250, ysgol sydd â 200 o blant £5,900, ac ysgol â 300 o blant £9,500.
- Byddai amcan gost cynaliadwyedd y cynllun ar gyfer yr uwchradd fel a nodir yn y tabl isod:-

| Ysgol | |
|---|---|
| Ardudwy | £12,723.13 |
| Botwnnog | £17,022.62 |
| Bro Idris (Ysgol 3-16) | £11,612.64 |
| Brynrefail | £24,428.27 |
| Dyffryn Nantlle | £14,186.52 |
| Dyffryn Ogwen | £16,213.59 |
| Eifionydd | £15,052.72 |
| Friars | £44,842.83 |
| Glan y Môr | £19,266.51 |
| Syr Hugh Owen | £28,662.73 |
| Tryfan | £13,058.23 |
| Tywyn | £13,418.84 |
| Godre'r Berwyn (Ysgol 3-19) | £13,234.61 |
| Y Moelwyn | £13,314.43 |

- Na ragwelid y byddai yna unrhyw ofyn ar ysgolion i gyfrannu tuag at gynaliadwyedd y cynllun yn y flwyddyn gyllidol nesaf.

- Bod hyd at £800,000 ar gael ar gyfer dyfeisiadau eleni, ac na ellid gwario'r grant heb ymrwymiad i gynaliadwyedd y buddsoddiad hwn.
- Fel arwydd o ymroddiad y Cyngor i'r Strategaeth Addysg Ddigidol, a'r ymrwymiad i sgiliau digidol y dysgwyr, bod yr Adran Addysg yn dymuno buddsoddi yng nghynaliadwyedd y cynllun hwn. Byddai unrhyw fuddsoddiad gan yr Adran yn lleihau cost cynaliadwyedd yr ysgolion.

Ymhellach i gynnwys yr adroddiad, nodwyd:-

- Er na dderbyniwyd y ffigurau terfynol ynglŷn â'r grant tan yr unfed awr ar ddeg, bod rhaid rhoi archeb i mewn erbyn hanner dydd ar y 4ydd o Fawrth am werth £798,000 o offer.
- Y cynhaliwyd nifer o drafodaethau gyda'r Pennaeth Addysg ynglŷn â sut y gallai'r Adran gefnogi'r buddsoddiad yng nghynaliadwyedd y ddarpariaeth. Bwriedid edrych ar bob cyllideb o fewn yr Adran gan hefyd gynnal trafodaethau gyda Chabinet y Cyngor. Cadarnhawyd y byddai'r Adran yn cefnogi'r buddsoddiad, ond ni ellid cadarnhau beth fyddai'r union swm ar hyn o bryd.
- Bod yr Adran am ymrwymo i 20% o'r £800,00 ar unwaith, neu ni fyddai'n bosib' gwario'r grant.

Croesawyd bwriad yr Adran i fuddsoddi yng nghynaliadwyedd y ddarpariaeth.

Pwysleisiwyd bod yr ysgolion angen gwybod pryd y byddai'r offer newydd yn cyrraedd, fel y gallent gynllunio ar gyfer hynny. Mewn ymateb, eglurwyd, yn hytrach na rhedeg dwy system na fyddai, o bosib', yn siarad â'i gilydd, y bwriedid dod ag un system i mewn. Gan hynny roedd yr amseru'n bwysig iawn.

Nodwyd bod yr ysgolion angen gwybodaeth am y penderfyniadau hyn yn ystod yr wythnosau nesaf. Mewn ymateb, eglurwyd ei bod yn anodd i'r Cyngor o safbwynt cynllunio, gan nad oedd yn hysbys eto faint yn union o arian oedd yn y pot ar gyfer y flwyddyn nesaf. Gan hynny roedd yn debygol na fyddai'r offer newydd ar gael tan yn fuan ar ôl y Nadolig, ond byddai'r gwaith o'u paratoi wedi ei wneud cyn hynny a'r cwbl fyddai angen ei wneud fyddai eu dosbarthu i'r ysgolion.

Nodwyd, er mai Cynnal sy'n paratoi adroddiad blynyddol ar ansawdd, mai'r Cyngor sy'n gwneud y penderfyniad bod yr offer yn safonol. Mynegwyd y farn bod hyn yn dir llwyd ac awgrymwyd y byddai'n fuddiol darparu cytundeb lefel gwasanaeth ar gyfer yr ysgolion.

Awgrymwd y byddai'n syniad darparu rhyw fath o newyddlen bob bythefnos ar gyfer yr ysgolion hynny oedd heb sedd ar y Fforwm. Mewn ymateb, eglurwyd bod dwy newyddlen yn cael eu hanfon i'r ysgolion yn fisol. Awgrymwyd hefyd y gellid gofyn i'r cynrychiolwyr ar y grwpiau strategol / technegol adrodd yn ôl i'r penaethiaid.

## 8. GWASANAETH ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A CHYNHWYSIAD

Nodwyd bod y Swyddog Addysg Ardal Dwyfor / Meirion eisoes wedi rhoi ei gyflwyniad ar hyn dan eitem 6 uchod.

## 9. GRANTIAU YSGOLION 2020-21 – DIWEDDARIAD

Nodwyd y disgwylid mwy o wybodaeth cyn gallu rhoi diweddariad ar hyn i'r Fforwm.

## 10. DYDDIAD CYFARFOD NESAF

Cytunwyd i gynnal cyfarfod nesaf y Fforwm ym Mehefin, ar bnawn Llun os yn bosib', gyda chyfarfod pellach i'w gynnal ar ôl y gwyliau haf.

Gofynnwyd am gynnwys Cynllun Absenoldebau Ysgolion Uwchradd fel eitem ar raglen y cyfarfod nesaf gan fod y ddarpariaeth bresennol yn dod i ben. Awgrymwyd hefyd bod y mater yn cael ei drafod yn y cyfarfod penaethiaid cyn dod i'r Fforwm ym Mehefin.

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 y.h. a daeth i ben am 3.00 y.h.

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **FFORWM CYLLIDEB YSGOLION** |
| **DYDDIAD** | **28 Medi 2020** |
| **TEITL** | **Cyfrifon Terfynol Ysgolion Blwyddyn Gyllidol 2019/20** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno er gwybodaeth** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Derbyn yr adroddiad** |
| **AWDUR** | **Kathy Bell – Cyfrifydd Grŵp Ysgolion** |

**1** **<u>Cyfrifon Terfynol 2019/20</u>**

1.1 Atodir er gwybodaeth manylion balansau ysgolion unigol ar 31 Mawrth 2020 (**atodiad 1**).

1.2 Crynodeb o falansau ysgolion ar 31/03/2020 -

| | canran | 31/03/2019 | cynnydd+/ lleihad- | 31/03/2020 | canran |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynradd | 7.08% | £2,481,037 | -£11,844 | £2,469,193 | 7.09% |
| Dilynol | 17.06% | £484,789 | -£85,895 | £398,894 | 9.20% |
| Uwchradd | 3.02% | £973,687 | +£454,873 | £1,428,560 | 4.39% |
| Arbennig | 1.62% | £60,860 | -£24,517 | £36,343 | 0.91% |
| **Cyfanswm** | **5.42%** | **£4,000,373** | **+£332,618** | **£4,332,991** | **5.72%** |

1.3 Heblaw cynnydd o £454,873 yn y sector uwchradd, mae balansau'r sectorau eraill wedi lleihau.

1.4 O gymharu gyda'r sefyllfa ar ddiwedd 2018/19 pan oedd 7 ysgol gyda cyfanswm diffyg gwerth -£207,106, ar ddiwedd 2019/20 5 ysgol sydd gyda diffyg ariannol a hynny gwerth -£136,608.

1.5 Mae cyfanswm y balansau sydd dros 5% wedi cynyddu o £1,736,732 (67 ysgol) ar 31/03/2019 i £2,048,358 (60 ysgol) ar 31/03/2020.

## 2 Cynllun Cyfarwyddo Defnydd Balansau

2.1 Mae gan yr Adran Addysg rym i gyfarwyddo'r corff llywodraethu sut i wario'r elfen o’u balansau sydd dros y trothwy o £50,000 i Ysgolion Cynradd ac £100,000 i Ysgolion Uwchradd ac Arbennig. Yn absenoldeb unrhyw ddarpariaeth benodol yn y Rheoliadau, trothwy o £100,000 sydd hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer Ysgolion Dilynol.

2.2 Mae’r drefn gweithredu yn parhau fel y llynedd –

- pob ysgol gyda dros 5% o falansau neu gyda balansau dros y trothwy i gwblhau holiadur ar ddefnydd bwriedir erbyn 3 Gorffennaf 2020
- yn ddibynnol ar gynnwys yr holiadur a posib sgwrs gyda’r ysgol Adran Addysg yn cyfarwyddo sut i ddefnyddio’r balansau a hynny erbyn 30 Medi 2020
- adolygu os ydi ysgol wedi gweithredu yn unol a chyfarwyddid yr Adran Addysg ac os ddim tynnu’r arian yn ôl erbyn 31 Rhagfyr 2020
- yn sgil COVID-19 mae’r amserlen yma wedi llithro
- hefyd ym mis Mehefin eleni rhoddwyd cyfle i swyddogion gyflwyno sylwadau am fuddsoddiadau penodol fyddai yn arwain at wella’r ysgol

2.3 Mae atodiad 1 yn amlygu'r symiau ariannol sydd dros y trothwyon –

- 19 ysgol gynradd (amrywio rhwng £314 a £66,579 uwchben y trothwy o £50mil)
- 1 ysgol ddilynol (£334,473 uwchben trothwy o £100mil)
- 6 ysgol uwchradd (amrywio rhwng £26,493 a £429,297 uwchben y trothwy o £100mil)

## 3. Casgliad

3.1 Nid ydi datganiad ystadegol blynyddol Llywodraeth Cymru ar falansau ysgolion ar gyfer 31 Mawrth 2020 wedi’i gyhoeddi eto, ond mewn darn o waith ymysg cyfrifwyr ysgolion Cymru, namyn un awdurdod oedd heb ymateb, mae gan Gwynedd y cyfanswm diffyg tryddydd lleiaf yng Nghymru a’r cyfanswm balansau net tryddydd uchaf.

## 4. Argymhelliad

**4.1 Dylai’r Adran Addysg a’r Adran Gyllid gydweithio yn agos gyda’r ysgolion gyda diffyg ariannol er mwyn sicrhau eu bod yn clirio’r diffyg cyn gynted â phosib.**

**4.2 Dylai’r Adran Addysg a’r Adran Gyllid barhau i fonitro cyllidebau ysgolion.**

# Cyfrifon Terfynol Ysgolion 2019/20

Eitem X - atodiad 1

| | | A | B | C | CH | D | DD | E | yn ystod 2019/20 | | Cyfanswm Balansau | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Rhif Ysgol | Enw Ysgol | Balansau 31/03/2018 | Balansau 31/03/2019 | Balansau 31/03/2020 | Dyraniad Terfynol 2019/20 | Balansau 31/03/2020 fel % o'r Dyraniad | cynnydd | lleihad | dros 5% 31/03/2020 | dros trothwy £50k neu £100k 31/03/2020 |
| | 1 | 2000 | Gwaun Gynfi | £52,915 | £30,002 | **£60,328** | £552,439 | 10.92% | £30,326 | | £32,706 | £10,328 |
| | 2 | 2004 | Nefyn | £22,489 | £18,072 | **£20,620** | £532,860 | 3.87% | £2,549 | | | |
| | 3 | 2006 | Llanrug | £39,204 | £23,916 | **£30,327** | £816,062 | 3.72% | £6,410 | | | |
| | 4 | 2008 | Abererch | £38,058 | £38,927 | **£56,176** | £328,241 | 17.11% | £17,249 | | £39,764 | £6,176 |
| * | 5 | 2009 | Abersoch | £7,805 | £3,068 | **£2,371** | £128,241 | 1.85% | | -£696 | | |
| * | 6 | 2010 | Beddgelert | £29,241 | £19,009 | **£12,273** | £163,804 | 7.49% | | -£6,736 | £4,083 | |
| | 7 | 2011 | Bethel | £25,484 | £15,175 | **£10,804** | £483,447 | 2.23% | | -£4,371 | | |
| | 8 | 2013 | Bodfeurig | £18,534 | £13,353 | **£21,838** | £258,776 | 8.44% | £8,485 | | £8,899 | |
| | 9 | 2015 | Borthygest | £40,061 | £34,857 | **£21,517** | £219,279 | 9.81% | | -£13,340 | £10,553 | |
| | 10 | 2017 | Brynaerau | £38,828 | £30,303 | **£33,654** | £246,361 | 13.66% | £3,351 | | £21,336 | |
| | 11 | 2026 | Y Gelli | £38,452 | £36,763 | **£30,648** | £686,202 | 4.47% | | -£6,115 | | |
| | 12 | 2028 | Penybryn | £65,652 | £34,919 | **£8,359** | £533,321 | 1.57% | | -£26,560 | | |
| | 13 | 2033 | Treferthyr | £37,838 | £27,527 | **£32,557** | £400,840 | 8.12% | £5,030 | | £12,515 | |
| | 14 | 2036 | Chwilog | -£6,097 | -£4,538 | **£210** | £208,043 | 0.10% | £4,747 | | | |
| | 15 | 2039 | Crud Y Werin | £3,936 | £17,857 | **£18,396** | £249,483 | 7.37% | £539 | | £5,922 | |
| | 16 | 2042 | Dolbadarn | £85,755 | £45,877 | **£53,036** | £606,993 | 8.74% | £7,158 | | £22,686 | £3,036 |
| | 17 | 2046 | Edern | £28,721 | £9,513 | **£31,020** | £337,090 | 9.20% | £21,507 | | £14,166 | |
| * | 18 | 2047 | Felinwnda | £26,916 | £40,921 | **£10,288** | £163,083 | 6.31% | | -£30,633 | £2,134 | |
| | 19 | 2048 | Bro Plennydd | £9,012 | £25,777 | **£16,564** | £293,828 | 5.64% | | -£9,213 | £1,872 | |
| | 20 | 2049 | Garndolbenmaen | £21,387 | £6,790 | **£88** | £191,585 | 0.05% | | -£6,701 | | |
| * | 21 | 2051 | Glanadda | £36,977 | £59,565 | **£63,022** | £213,859 | 29.47% | £3,456 | | £52,329 | £13,022 |
| * | 22 | 2059 | Llanaelhaearn | £20,703 | £21,452 | **£6,522** | £142,221 | 4.59% | | -£14,930 | | |
| | 23 | 2060 | Llanbedrog | £10,842 | £3,325 | **£10,411** | £326,699 | 3.19% | £7,086 | | | |
| * | 24 | 2066 | Llangybi | £13,230 | £3,638 | **£131** | £203,223 | 0.06% | | -£3,507 | | |
| | 25 | 2069 | Llanllechid | £23,846 | £76,348 | **£74,445** | £819,549 | 9.08% | | -£1,902 | £33,468 | £24,445 |
| | 26 | 2070 | Llanllyfni | £61,574 | £63,706 | **£80,760** | £310,136 | 26.04% | £17,054 | | £65,253 | £30,760 |
| * | 27 | 2075 | Bab Morfa Nefyn | £20,974 | £24,633 | **£31,175** | £182,816 | 17.05% | £6,542 | | £22,034 | |
| * | 28 | 2078 | Baladeulyn | £15,009 | £17,723 | **£11,377** | £170,518 | 6.67% | | -£6,346 | £2,851 | |
| * | 29 | 2081 | Nebo | £5,365 | £13,431 | **£18,307** | £172,152 | 10.63% | £4,876 | | £9,699 | |
| | 30 | 2085 | Penisarwaen | £13,200 | -£1,560 | **£5,765** | £245,013 | 2.35% | £7,325 | | | |
| | 31 | 2089 | Bro Lleu | £47,185 | £4,460 | **£4,426** | £704,923 | 0.63% | | -£35 | | |

| | | A | B | C | CH | D | DD | E | yn ystod 2019/20 | | Cyfanswm Balansau | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Rhif Ysgol | Enw Ysgol | Balansau 31/03/2018 | Balansau 31/03/2019 | Balansau 31/03/2020 | Dyraniad Terfynol 2019/20 | Balansau 31/03/2020 fel % o'r Dyraniad | cynnydd | lleihad | dros 5% 31/03/2020 | dros trothwy £50k neu £100k 31/03/2020 |
| | 32 | 2093 | Pentreuchaf | £23,352 | £13,858 | **£15,465** | £387,236 | 3.99% | £1,608 | | | |
| * | 33 | 2097 | Rhiwlas | £11,048 | £21,632 | **£15,309** | £202,496 | 7.56% | | -£6,323 | £5,185 | |
| * | 34 | 2098 | Rhosgadfan | £7,730 | £9,883 | **£3,412** | £202,574 | 1.68% | | -£6,471 | | |
| | 35 | 2099 | Rhostryfan | £14,807 | £19,824 | **£15,174** | £292,677 | 5.18% | | -£4,650 | £540 | |
| | 36 | 2103 | Sarn Bach | £22,448 | £26,267 | **£21,776** | £209,495 | 10.39% | | -£4,491 | £11,301 | |
| | 37 | 2104 | Eifion Wyn | £32,020 | £16,531 | **£773** | £679,512 | 0.11% | | -£15,758 | | |
| | 38 | 2108 | Talysarn | £57,079 | £48,869 | **£48,679** | £426,614 | 11.41% | | -£190 | £27,349 | |
| | 39 | 2110 | Y Gorlan | £53,213 | £53,416 | **£67,078** | £446,432 | 15.03% | £13,662 | | £44,757 | £17,078 |
| | 40 | 2111 | Yr Eifl | £41,240 | £32,352 | **£9,979** | £226,377 | 4.41% | | -£22,374 | | |
| | 41 | 2112 | Tudweiliog | £18,046 | £7,677 | **£8,200** | £218,772 | 3.75% | £522 | | | |
| | 42 | 2113 | Waunfawr | £28,573 | £20,074 | **-£5,120** | £458,072 | -1.12% | | -£25,194 | | |
| | 43 | 2116 | Glancegin | £114,372 | £56,613 | **£49,140** | £866,995 | 5.67% | | -£7,473 | £5,790 | |
| * | 44 | 2118 | Bab Coed Mawr | £33,331 | £31,377 | **£49,129** | £171,171 | 28.70% | £17,753 | | £40,571 | |
| | 45 | 2119 | Yr Hendre | £21,045 | -£28,084 | **-£47,169** | £1,404,953 | -3.36% | | -£19,085 | | |
| | 46 | 2122 | Bontnewydd | £37,549 | £46,452 | **£61,196** | £654,294 | 9.35% | £14,744 | | £28,481 | £11,196 |
| | 47 | 2123 | Y Garnedd | £46,370 | £21,091 | **£24,292** | £1,012,722 | 2.40% | £3,201 | | | |
| | 48 | 2125 | Cymerau | £64,552 | £58,242 | **£84,423** | £1,112,166 | 7.59% | £26,181 | | £28,814 | £34,423 |
| | 49 | 2126 | Abercaseg | £32,163 | £63,276 | **£102,127** | £423,800 | 24.10% | £38,851 | | £80,937 | £52,127 |
| | 50 | 2127 | Y Felinheli | £15,052 | £31,872 | **£20,691** | £557,557 | 3.71% | | -£11,180 | | |
| | 51 | 2180 | Bro Tegid, Y Bala | £41,721 | £40,162 | **£0** | £177,729 | | | -£40,162 | £14,661 | |
| | 52 | 2181 | Traeth | £51,385 | £46,984 | **£64,964** | £736,765 | 8.82% | £17,980 | | £28,126 | £14,964 |
| | 53 | 2185 | Corris | £20,079 | £6,268 | **£17,987** | £281,607 | 6.39% | £11,719 | | £3,907 | |
| | 54 | 2189 | Dyffryn Ardudwy | £40,902 | £29,868 | **£41,428** | £328,785 | 12.60% | £11,560 | | £24,988 | |
| | 55 | 2190 | Bro Cynfal | £19,428 | £23,686 | **£27,330** | £265,459 | 10.30% | £3,644 | | £14,057 | |
| * | 56 | 2192 | Edmwnd Prys | £17,425 | £12,253 | **£11,206** | £210,464 | 5.32% | | -£1,048 | £682 | |
| | 57 | 2194 | Llanbedr | £23,965 | £15,010 | **£9,054** | £210,551 | 4.30% | | -£5,956 | | |
| * | 58 | 2198 | Y Garreg | £16,102 | £19,122 | **£9,939** | £164,960 | 6.03% | | -£9,183 | £1,691 | |
| | 59 | 2199 | O.M.Edwards | £34,551 | £26,082 | **£5,780** | £351,663 | 1.64% | | -£20,301 | | |
| | 60 | 2205 | Manod | £71,260 | £65,318 | **£50,314** | £361,997 | 13.90% | | -£15,004 | £32,215 | £314 |
| * | 61 | 2207 | Pennal | £7,889 | -£1,090 | **£2,201** | £179,775 | 1.22% | £3,291 | | | |
| | 62 | 2208 | Cefn Coch | £45,104 | £51,127 | **£73,121** | £612,546 | 11.94% | £21,994 | | £42,493 | £23,121 |

| | | A | B | C | CH | D | DD | E | yn ystod 2019/20 | | Cyfanswm Balansau | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Rhif Ysgol | Enw Ysgol | Balansau 31/03/2018 | Balansau 31/03/2019 | **Balansau 31/03/2020** | Dyraniad Terfynol 2019/20 | Balansau 31/03/2020 fel % o'r Dyraniad | cynnydd | lleihad | dros 5% 31/03/2020 | dros trothwy £50k neu £100k 31/03/2020 |
| | 63 | 2210 | Talsarnau | £12,853 | £23,868 | **£34,916** | £212,995 | 16.39% | £11,048 | | £24,267 | |
| | 64 | 2211 | Tanygrisiau | £13,632 | £14,152 | **£13,318** | £271,679 | 4.90% | | -£835 | | |
| | 65 | 2212 | Penybryn | £40,399 | £60,879 | **£72,503** | £828,301 | 8.75% | £11,624 | | £31,088 | £22,503 |
| | 66 | 2213 | Bro Hedd Wyn | £15,312 | £21,199 | **£19,860** | £270,120 | 7.35% | | -£1,339 | £6,354 | |
| | 67 | 2214 | Frongoch | £45,144 | £39,261 | **£51,990** | £179,291 | 29.00% | £12,729 | | £43,025 | £1,990 |
| | 68 | 2219 | Tan y Castell | £12,791 | £4,505 | **£12,981** | £307,645 | 4.22% | £8,476 | | | |
| | 69 | 2220 | Ffridd y Llyn | £59,689 | £45,835 | **£28,723** | £228,319 | 12.58% | | -£17,112 | £17,307 | |
| | 70 | 2221 | Maenofferen | £42,638 | £75,607 | **£89,198** | £807,874 | 11.04% | £13,592 | | £48,805 | £39,198 |
| | 71 | 2227 | Hirael | £27,025 | £54,168 | **£66,639** | £625,667 | 10.65% | £12,471 | | £35,356 | £16,639 |
| | 72 | 2228 | Craig y Deryn | £12,530 | £32,128 | **£36,733** | £527,119 | 6.97% | £4,605 | | £10,377 | |
| | 73 | 2229 | Bro Llifon | £40,198 | £66,440 | **£44,655** | £523,000 | 8.54% | | -£21,785 | £18,505 | |
| | 74 | 3004 | Pont y Gôf | £61,217 | £24,933 | **£36,162** | £399,079 | 9.06% | £11,229 | | £16,208 | |
| | 75 | 3005 | Maesincla | £93,329 | £116,428 | **£116,579** | £1,147,383 | 10.16% | £151 | | £59,210 | £66,579 |
| | 76 | 3009 | Faenol | £76,217 | £79,077 | **£82,449** | £667,224 | 12.36% | £3,372 | | £49,088 | £32,449 |
| * | 77 | 3010 | Foelgron | £16,628 | £13,561 | **£1,028** | £172,185 | 0.60% | | -£12,532 | | |
